

**MSc Rheoli Twristiaeth a Lletygarwch  
Rhyngwladol  
MSc Rheoli Prosiectau Digwyddiadau**

**YSGOL REOLI CAERDYDD**

**Gwybodaeth am Ymrestru a'r Cyfnod  
Cynefino**

**Blwyddyn Academaidd 2019/2020**



**Cardiff  
Metropolitan  
University**

**Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd**

## CYNNWYS

1. [Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu](#)
2. [Ymrestru / Casglu cerdyn adnabod](#)
3. [Amserlen yr Wythnos Gynefino](#)
4. [Presenoldeb / Amserlen](#)
5. [Dolenni defnyddiol](#)

## 1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu

Cyflwyniad byr i'ch rhaglen gan gynnwys unrhyw achrediadau

Croeso i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ac, yn benodol, i'r Adran Dwristiaeth, Lletygarwch a Digwyddiadau. Rydym wrth ein bodd eich bod wedi dewis ymuno â ni ar gyfer eich rhaglen Meistr ac rydym yn siŵr y cewch flwyddyn ddiddorol a defnyddiol gyda ni.

Caiff manylion llawn y rhaglen y byddwch yn ymuno â hi, gan gynnwys amserlen a chynnwys y modiwl eu rhoi i chi yn ystod y diwrnod cynefino. Fodd bynnag, p'un ai y byddwch yn ymuno â'r rhaglen MSc Twristiaeth a Lletygarwch Rhyngwladol neu'r MSc Rheoli Prosiectau Digwyddiadau, byddwch yn ymgymryd â 120 credyd o fodiwlau a addysgir ac, wedi cwblhau'r rhain yn llwyddiannus, gallwch ddewis un o dri phrosiect terfynol. Caiff manylion y rhain eu hesbonio i chi ar y diwrnod cynefino ac yn ystod y rhan o'r rhaglen a addysgir. Bydd myfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'r llwybr interniaeth dwy flynedd yn symud ymlaen i'w prosiect interniaeth wedi cwblhau 120 credyd.

Yn ystod eich rhaglen, cewch gyfleoedd niferus i ymgysylltu â phartneriaid mewn diwydiant drwy eich modiwlau, eich profiad gwaith a'ch cyfleoedd interniaeth. Yn y gorffennol mae myfyrwyr wedi gweithio gyda Stadiwm y Principality, Stadiwm SWALEC, Live Nation, gwesty'r Park Plaza, Y Plasty, ymhlith llawer eraill.

Yn ystod y rhaglen, caiff myfyrwyr Rheoli Prosiectau Digwyddiadau y cyfle i ennill cymhwyster cydnabyddedig – cewch ragor o fanylion yn y cyfnod cynefino.

Bydd myfyrwyr a fydd yn gwneud yr MSc Rheoli Lletygarwch a Thwristiaeth yn ymweld ag un o'n prifysgolion partner am wythnos i gael ymgymryd â modiwl gyda myfyrwyr o'n prifysgolion partner. Ymhlith y lleoliadau blaenorol mae Bwlgaria ac Athen.

Edrychwn ymlaen at gael cwrdd â chi ym mis Medi.

Emma Bettinson (Cyfarwyddwr y Rhaglen) ac Elspeth Dale (Tiwtor Blwyddyn)

## 2. Ymrestru / Casglu Cerdyn Adnabod

### Ymrestru

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn. Caiff cardiau adnabod eu dosbarthu yn ystod y cyfnod cynefino.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich Ebost Ymrestru.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment) a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Rhwch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio. Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn UF (Pendant Di-amod) h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

### 3. Amserlen yr Wythnos Gynefino

Dyma restr o'ch wythnos gyntaf gyda ni. Yn ogystal â dilyn y rhestr hon, gallwch gael hyd i ragor o wybodaeth ar yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd, ar ein tudalennau Myfyrwyr Newydd ([www.cardiffmet.ac.uk/newstudents](http://www.cardiffmet.ac.uk/newstudents))

Dydd Llun, Medi 16eg		
Dydd Mawrth, Medi 17 <sup>eg</sup>	10.00 – 12.00	Croeso i'r Adran Twristiaeth, Lletygarwch a Digwyddiadau
	12.00 – 13.00	Croeso i ginio'r adran
	13.00 – 15.00	Prynhawn gyda Thiwtor Personol eich cwrs MSc.  Cyfarfod ar Deras yr Atriwm @ 13.00  <i>Dylech wisgo esgidiau a fydd yn addas ar gyfer cerdded</i>
	15.00	Casglu Cerdyn Adnabod – Y Llyfrgell
Dydd Mercher, Medi 18fed	12.00 ymlaen	Ffair y Glas  NIAC (Campws Cyncoed)
Dydd Iau, Medi 19 <sup>eg</sup>	10.00 – 15.00	Cyflwyniad i'ch rhaglen MSc (Ystafell i'w chadarnhau – cwrdd yn nerbynfa Ysgol Reoli Caerdydd)
Dydd Gwener, Medi 20fed	12.00 – 13.00	Cinio
	13.00	MetFest

#### 4. Presenoldeb

Caiff deunyddiau'r cwrs eu cyflwyno drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau, gweithdai, astudiaethau achos a gwaith maes.

Darlithoedd yw'r prif ddull ar gyfer cyflwyno gwybodaeth. Mae seminarau yn gyfarfodydd o grwpiau bach o fyfyrwyr gydag aelod o'r staff. Gellir eu defnyddio i ymhelaethu ar y deunydd a gyflwynir yn y darlithoedd, i drafod pynciau neu i'r myfyrwyr gyflwyno gwaith a baratowyd ymlaen llaw i'w cydfyfyrwyr ac aelod o'r staff.

Mae gweithdai yn cynnwys trafodaethau grŵp ar bynciau neu arddangosiadau ac maen nhw'n ymarferion rhyngweithiol ar gyfer datrys problemau. Mae Astudiaethau Achos yn broblemau cymhleth go iawn neu ffug y bydd myfyrwyr yn eu dadansoddi ac yn cyflwyno eu hatebion eu hunain.

Caiff astudiaethau maes, ymweliadau dydd a siaradwyr gwadd eu trefnu i alluogi myfyrwyr i arsylwi'r defnydd masnachol a bywyd go iawn ar elfennau damcaniaethol eu rhaglenni.

#### Amserlen

Nid yw'r amserlen ar gyfer y rhaglen ar gael eto, ond bydd myfyrwyr amser llawn yn gwneud 3 modiwl y semester a fydd yn golygu 12 awr o ddarpariaeth a addysgir. Rydym yn bwriadu crynhoi hyn gymaint ag y gellir er mwyn i'r myfyrwyr fod â chyfnodau o amser pan na fyddan nhw yn yr ystafell ddosbath ac yn gallu astudio'n annibynnol, magu profiad gwaith neu gyflawni ymrwymadau teuluol. Does dim polisi presenoldeb swyddogol gennym ond rydym yn argymhell bod myfyrwyr yn dod i bob darlith a gweithdy er mwyn elwa'n llawn o'r rhaglen.

## 5. Dolenni defnyddiol

[Y Llawlyfr Academaidd](#)

[Llety](#)

[Costau Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.

[Polisi Derbyn](#)

[Cysgodfa Beiciau](#)

Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campysau.

[Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)

[Newyddion Met Caerdydd](#)

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr *glas*

[Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.

[Iechyd Galwedigaethol](#)

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.

[Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gswllt ar gyfer Gwasanaeth Cyngori Ariannol y Myfyrwyr.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cyngori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.

[Dyddiadau'r Tymhorau](#)

[Rhith Deithiau](#)

Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys